## Ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd

*20/11/2012*

**Cais am Wybodaeth**

Ysgrifennaf yn dilyn yr e-bost a anfonais ar 2 Tachwedd 2012.

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar ffurf nesgeseuon e-bost ar 25 Medi a 16 Hydref 2012. Yn eich neges gyntaf, rydych yn dweud:

*Rwy'n chwilio am ateb i'r cwestiwn gwreiddiol y gofynnodd fy nghyfaill o Canoe England yn yr e-bost isod:*

> *"A allwch helpu gyda phwynt yn Ymchwiliad Pwyllgor Cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru i Fynediad 2010. Rwy'n ymdrin ag ymateb i SW Rivers Association sy'n dyfynnu'r datganiad a ganlyn o'r ymchwiliad-*
>
> *" nid yw'r hawl mordwyo cyhoeddus sy'n bodoli ar ddyfroedd llanw'n berthnasol i ddyfroedd heb lanw ac, o'r herwydd, nid oes unrhyw hawl mordwyo cyhoeddus gyffredinol ... ar afonydd sydd heb lanw"*
>
> *A wnaeth yr ymchwiliad gyfiawnhau'r datganiad hwn ynteu a gafodd ei wneud yn gwbl gibddall?"*

A hefyd:

*Hyderaf na wnaeth y Pwyllgor yr haeriad hwn heb sicrhau bod y datganiad wedi'i seilio ar dystiolaeth.*

Yn eich ail e-bost, aethoch ati i grynhoi'ch cais fel a ganlyn:

*… hoffwn wybod ar ba sail gyfreithiol y dywedodd y Pwyllgor nad oes hawl mordwyo cyhoeddus ar ddŵr mewndirol.*

Fel y gwyddoch, cafodd Pwyllgor Cynaliadwyedd y 3ydd Cynulliad gyngor cyfreithiol yn ystod ei *Ymchwiliad i fynediad i ddŵr mewndirol yng Nghymru*,

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk

gan gynnwys cyngor ynghylch hawl mordwyo cyhoeddus ar ddŵr heb lanw. Mae gennym, felly, wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais. Rydym o'r farn bod egwyddor braint cyngor cyfreithiol yn gymwys i'r wybodaeth honno a'i bod wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 42 o *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* ar sail braint broffesiynol gyfreithiol.

Eithriad amodol yw Adran 42 ac felly rhaid ystyried a fyddai gwrthod datgelu'r wybodaeth o fudd i'r cyhoedd. O dan yr eithriad, rhaid datgelu'r wybodaeth oni bai bod peidio â gwneud hynny ar sail braint broffesiynol gyfreithiol o fwy o fudd i'r cyhoedd. Os yw'r budd i'r cyhoedd yn y ddau achos yn gytbwys, dylid datgelu'r wybodaeth.

Ar ôl ystyried y mater, rydym wedi dod i'r casgliad fod y budd i'r cyhoedd sydd ynghlwm wrth barhau â'r fraint broffesiynol gyfreithiol yn drech na'r budd i'r cyhoedd a fyddai ynghlwm wrth ei datgelu ac felly mae'n rhaid inni wrthod eich cais.

Ystyrir bod y budd i'r cyhoedd y cyfeirir ato yn adran 42 yn bwysig oherwydd yr egwyddor y tu ôl i fraint broffesiynol gyfreithiol, sef sicrhau bod cynghorwyr cyfreithiol a'u cleientiaid - yn yr achos hwn, un o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gallu cyfathrebu'n gwbl agored. Credwn fod budd sylweddol i'r cyhoedd ynghlwm wrth ganiatáu i bwyllgorau'r Cynulliad gyfathrebu'n rhydd â chynghorwyr cyfreithiol er mwyn cael cyngor cyfreithiol, heb iddynt ofni y caiff y wybodaeth ei datgelu, i sicrhau bod penderfyniadau o natur gyhoeddus yn cael eu seilio ar gyngor gwybodus a thrylwyr.

Rydym yn cydnabod y gall datgelu gwybodaeth fod o fudd i'r cyhoedd, ee os oes cyfiawnhad clir, cadarn a phenodol dros wneud hynny ond, yn ein barn ni, nid dyna'r achos y tro hwn. Er bod tybiaeth o blaid datgelu yn *Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*, nid yw hyn, ar ei ben ei hun, yn cyfrif rhyw lawer. Yn ogystal â hyn, ymddengys nad yw'r rhesymau a nodir yn aml dros ddatgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd, ee bod y mater dan sylw'n ymwneud â nifer fawr o bobl, bod symiau mawr o arian yn y fantol neu fod diffyg tryloywder mewn penderfyniadau, i'w gweld yn yr achos hwn.

Rydym yn cydnabod, wrth gwrs, bod tryloywder o fudd i'r cyhoedd ac yn cydnabod hefyd ein bod ni'n hunain wedi ymrwymo i weithio mor agored â phosibl bob amser. Hefyd, mae gwybod beth yw'r farn gyfreithiol y seiliodd y Pwyllgor ei argymhellion arni o fudd amlwg i'r cyhoedd, gan fod hynny'n caniatáu i bobl bwyso a mesur pa mor gywir yw'r farn honno. Fodd bynnag,

rydym o’r farn bod natur y cyngor cyfreithiol a gafodd y Pwyllgor yn amlwg yng nghynnwys adroddiad y Pwyllgor dyddiedig Mehefin 2010 sy’n nodi’r farn gyfreithiol yn fanwl dros ben ac, yn y cyswllt hwn, byddem yn eich cyfeirio at baragraffau 13 - 28, 39 - 41, 79 - 82, 91 - 93 a 111 - 122. Mae paragraffau 13 - 28 yn benodol, yn crynhoi’r sefyllfa gyfreithiol a ystyriodd y Pwyllgor yng nghyswllt mynediad i ddŵr mewndirol yng Nghymru. Felly, rydym o’r farn bod yr adroddiad ei hun yn bodloni’r budd i’r cyhoedd ac na fyddai datgelu’r ddogfen freintiedig sy’n esbonio’r cyngor y seiliwyd y farn honno arno o fudd i’r cyhoedd.

Fel y gwyddoch, yn ystod yr ymchwiliad, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth yn awgrymu bod hawl mordwyo cyhoeddus yn bod eisoes ar bob afon y gellir mordwyo ar ei hyd, a galwyd ar y Cynulliad i gadarnhau’r dehongliad hwnnw o’r gyfraith. Nid swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw cadarnhau’r sefyllfa gyfreithiol bresennol; swyddogaeth y farnwriaeth yw honno.

Mae’ch cais wedi’i ystyried yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae’r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**